CRONFA CEFNOGI DIWYLLIANT, DIGWYDDIADAU, BYW'N IACH AC ACTIF UKSPF

# CANLLAWIAU CEISIADAU BYW'N IACH AC ACTIF (ROWND 2)

**CYFLWYNIAD**

Fel rhan o raglen Ffyniant Cyffredin DU, mae oddeutu £20m wedi ei glustnodi ar gyfer sir Gwynedd gyda pheth o'r arian wedi ei ymrwymo ar gyfer sefydlu Cronfeydd ar gyfer cefnogi prosiectau Cymunedol.

Mae £250,000 wedi ei glustnodi ar gyfer cefnogi prosiectau yn y maes Byw'n Iach ac Actif. Bydd yn gronfa yn cael ei weinyddu ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chwmni Byw'n Iach.

**AMSERLEN**

Dyddiad agor y gronfa ar gyfer Rownd 3: yw 1af o Fawrth 2024.

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau i'r gronfa yw 5pm ar 30 o Ebrill 2024.

Byddwn yn anelu i asesu a chymeradwyo ceisiadau erbyn diwedd Mai 2024.

Ni fydd yn bosib ariannu unrhyw weithgaredd sydd wedi cychwyn cyn bydd llythyr cynnig wedi ei arwyddo a'i ddychwelyd i swyddogion Cyngor Gwynedd**.**

Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y byddwn yn agor rownd pellach i ymgeisio ar gyfer y gronfa. Mi all rownd ychwanegol cael ei gynnal pe bai'r galw yn y rownd hon yn isel.

**PWY SY'N CAEL YMGEISIO?**

Mae'r gronfa yn agored unrhyw sefydliad nid er elw sy'n cydymffurfio a'r canllawiau ymgeisio. E.e. clybiau chwaraeon cymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol  a mudiadau gwirfoddol.

**SUT I GYFLWYNO EICH CAIS?**

Rydym yn cynghori yn gryf i chi drafod eich cais gyda Rheolwr Uned Partneriaethau Byw'n Iach  cyn cyflwyno (Alun Jones alunjones2@bywniach.cymru

Unwaith y byddwch yn barod i gyflwyno eich cais, gallwch gyflwyno eich cais drwy e bost i cronfacefnogidywillesiant@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch sicrhau eich bod hefyd yn cyflwyno'r dogfennau atodol sydd wedi eu rhestru o fewn y canllaw, gyda'ch cais.  Ni fydd yn bosib prosesu ceisiadau anghyflawn.

**BETH SYDD YN BOSIB EI ARIANNU?**

Mae'n bosib ymgeisio am symiau rhwng £3,000 hyd at £15,000, i ariannu prosiect yn ei gyfanrwydd, neu i

ariannu rhan o brosiect mwy. Tra mae'n bosib cyflwyno cais am 100% o gostau'r prosiect mi fydd ymdrechion i gydariannu'n cael eu hystyried wrth sgorio ceisiadau. Pan fydd y grant yn cyfrannu at brosiect mwy, bydd disgwyl i'r pecyn ariannol gyfan fod yn ei le cyn rhyddhau grant o'r gronfa hon.

Bydd disgwyl i bob cais unai:

- creu cyfleoedd ychwanegol/ newydd i fod yn gorfforol actif mewn chwaraeon neu weithgareddau ffitrwydd a llesiant, neu
- cyfrannu tuag at gynaladwyedd mudiadau sydd yn darparu'r cyfleodd uchod

**Math o eitemau a gellir eu hariannu:**

- Gwariant angenrheidiol i sefydlu clwb neu dîm newydd neu ehangu'r nifer sydd yn medru cymryd rhan yn eich gweithgareddau
- Hyfforddiant i gymhwyso gwirfoddolwyr fydd yn ehangu cyfleodd i fod yn actif
- Llogi cyfleusterau er mwyn sefydlu clwb neu dîm newydd neu ehangu'r nifer sydd yn medru cymryd rhan yn eich gweithgareddau
- Mesurau effeithiolrwydd ynni mewn cyfleusterau chwaraeon
- Buddsoddiad mewn cyfleusterau er mwyn creu cyfleoedd ychwanegol yn cynnwys gwaith dichonolrwydd angenrheidiol
- Buddsoddiad mewn prosiectau fydd yn creu llif incwm rheolaidd i'r mudiad, ac felly'n cryfhau cynaladwyedd ariannol
- Uwchraddio cyfleusterau i greu cyfleoedd cynhwysol newydd
- Costau cynnal digwyddiad fydd yn annog mwy o bob i fod yn actif yn rheolaidd- OND bydd angen dangos llwybrau clir i bobl parhau i gymryd rhan wedi'r digwyddiad.

**Math o eitemau fydd ddim yn gymwys:**

- Costau cynnal a chadw offer ac adeiladau.
- Costau cynnal gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli.
- Costau cyflogi staff mewn rôl sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn awyddus i weld ceisiadau sydd yn creu cyfleoedd i grwpiau sydd â lefel is o gyfranogiad yn y sir ar hyn o bryd e.e. genethod a merched, pob anabl, pobl hyn, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Bydd angen dangos fod y prosiect yn cyfrannu tuag at un neu mwy o'r allbynnau isod:

- Nifer y cyfleusterau a gaiff eu cefnogi/creu
- Nifer y twrnameintiau/cynghreiriau/timau a gaiff eu cefnogi
- Lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden

**SUT I GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | I ba gronfa yr ydych yn ymgeisio | **Cronfa Byw'n Iach** |
| 2. | Prif sefydliad sy'n Gwneud y Cais | Rhowch enw'r sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais |
| 3. | Cyfeiriad y Sefydliad | Cyfeiriad y sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Beth yw natur eich sefydliad | Gall unrhyw sefydliad sydd ddim yn dosbarthu elw ymgeisio ar arian drwy'r gronfa.<br><br>Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad fod wedi eu lleoli, ac yn darparu ar gyfer trigolion Gwynedd i geisio am gefnogaeth drwy'r cronfeydd hyn.<br><br>Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am geisio am arian o'r gronfa;<br><br>• Ni all eich sefydliad ddosbarthu elw (oni bai am drefnwyr digwyddiadau nodweddiadol a strategol)<br>• Rhaid i'ch sefydliad fod a statws cyfreithiol a chyfansoddiadol<br>• Rhaid i'ch sefydliad fod a strwythur rheoli clir<br>• Rhaid i'ch sefydliad gael sustem rheolaeth ariannol glir<br>• Bod ag egwyddorion gweithredol sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr<br>• Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb yn gysylltiedig â mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig<br>• Yn meddu ar amcanion a nodau sydd yn cyd-fynd a gweithgareddau ariannir drwy'r grant yma<br>• Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun<br>• Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun<br>• Bod egwyddorion gweithredol yn eu lle sy'n gyd fynd a deddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus.<br><br>Noder na allwn dderbyn ceisiadau gan unigolion i'r gronfa |
| 5. | Rhif y Cwmni /Elusen | Nodwch Rif cwmni / elusennol y sefydliad os yn berthnasol |
| 6. | Enw Cyswllt Arweiniol | Nodwch enw'r prif gyswllt sydd yn gweithredu ar ran y sefydliad a Teitl swydd o fewn y sefydliad |
| 7. | Enw Cyswllt Eilaidd | Enw eilydd ar ran y sefydliad a Theitl o fewn y sefydliad |
| 8. | Rhif Ffôn Cyswllt | Nodwch rif ffon y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu â chwi i drafod unrhyw faterion yn ymwneud a'r cais |
| 9. | Cyfeiriad ebost | E-bost y prif gyswllt – fe fydd pob gohebiaeth parthed eich cais yn cael ei anfon i'r cyfeirid e bost a nodir yma |

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Cyfeiriad Gwefan y sefydliad | Safle we'r sefydliad |
| 11. | Oes gan eich sefydliad gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod dau berson i awdurdodi Taliadau? | Mae'n rhaid i bob cais sydd yn dod i mewn bod yn enw sefydliad sydd a chyfrif banc a chyfansoddiad<br><br>Os yw eich grŵp yn sefydliad newydd sydd yn y broses o agor cyfrif banc, ond nad yw'r cyfrif wedi agor o fewn amserlen y gronfa, mae posib i ni ystyried ceisiadau gan sefydliad arall o fewn eich Cymuned sydd yn gefnogol i'ch cynllun. Yn yr achos yma bydd angen i chi anfon tystiolaeth bod eich cyfrif banc yn y broses o gael ei agor, ynghyd a thystiolaeth o gytundeb rhwng eich sefydliad a'r sefydliad bydd yn ceisio i'r gronfa ar eich rhan.<br>Noder na fydd y cytundeb yma yn amharu ar allu'r un sefydliad i geisio am grant ar gyfer cynllun gwahanol drwy'r gronfa. |
| 12. | Ydi eich grwp yn hawlio TAW | Os nad yw eich sefydliad yn hawlio taw gallwch geisio am grant yn gynnwys y costau TAW. Os yw eich sefydliad yn hawlio TAW ni fydd modd cynnwys TAW eitemau fel rhan o'r cais. |
| 13. | Beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich sefydliad | Disgrifiwch beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich grŵp (hyd at 150 gair) |
| 14. | Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, nodwch pa gamau a gymerir i'w diogelu | Dylid yma gyfeirio at unrhyw bolisi a threfniadau sydd mewn lle gan eich sefydliad i ddiogelu plant neu oedolion bregus. |

**GWYBODAETH AM Y PROSIECT YR YDYCH AM I'R GRONFA ARIANNU**

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Enw'r Prosiect | Nodwch enw'r Prosiect yr ydych am i'r gronfa ei ariannu |
| 16. | Lleoliad y prosiect | Nodwch ym mha ardal fydd y prosiect yn weithredol gan gynnwys cod post |
| 17. | Prif Flaenoriaeth Buddsoddi | Mae'r gronfa wedi creu i gyfrannu at yr Ymyrraeth SPF canlynol:<br><br>W10: Cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, twrnameintiau, timau a chynghreiriau lleol; i ddod â phobl at ei gilydd.<br><br>Eglurwch sut fydd eich prosiect yn gyfrannau at yr ymyrraeth uchod<br><br>Rydym yn awyddus i gefnogi prosiectau sydd yn creu cyfleoedd i bobl sydd yn wynebu rhwystrau i fod yn actif. Eglurwch sut fydd eich prosiect yn creu cyfleoedd cynhwysol newydd/ gwell. |

| | | |
|---|---|---|
| 18. | Math y cais yr ymgeisir am-dano | £3,000 hyd at £15,000, i ariannu prosiect yn ei gyfanrwydd neu swm penodol i ariannu rhan o brosiect mwy |
| 19. | Rhifau Ymyrraeth | W10 |
| 20. | Targedau Allbynnau Dangosol | Mae disgwyl i'r gronfa cyfrannau at yr allbynnau isod<br>• Nifer y cyfleusterau a gaiff eu cefnogi/creu<br>• Nifer y twrnameintiau/cynghreiriau/timau a gaiff eu cefnogi<br>• Lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden mewn cyfleusterau a gafodd gyllid (yn seiliedig ar chwaraewyr/timau cofrestredig)<br>• Nifer o wirfoddolwyr fydd yn rhan o'r prosiect<br>Nodwch eich targed ar gyfer pob un o'r Allbynnau perthnasol uchod. Does dim rhaid cynnig targed ar gyfer pob un. |
| 21. | Targedau Canlyniadau Dangosol | Mae disgwyl i'r gronfa creu'r canlyniad isod:<br>• Mwy o bobl yn defnyddio cyfleusterau/a mwynderau<br>Eglurwch sut fydd eich prosiect yn gyfrannau at y canlyniad uchod. |
| 22. | Dyddiad Cychwyn y Prosiect/Digwyddiad | Dylid nodi yma'r dyddiad yr ydych yn bwriadu cychwyn ar eich prosiect pe byddai'r cais yn llwyddiannus |
| 23. | Dyddiad Gorffen y Prosiect/Digwyddiad | Dylid yma nodi'r dyddiad yr ydych yn disgwyl cwblhau eich prosiect. Noder bod yn rhaid i bob cynllun sy'n cael ei ariannu drwy'r cronfeydd allweddol fod wedi eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac ni fydd modd cael estyniad wedi'r dyddiad yma. |

**CERRIG MILLTIR Y PROSIECT**

| | | |
|---|---|---|
| 24. | Rhestrwch gerrig milltir eich prosiect/ digwyddiad , a nodwch ddyddiadau | Dylid yma nodi eich amserlen i gwblhau holl elfennau eich prosiect, o dyddiad cychwyn y prosiect i ddyddiad gorffen y prosiect.<br>Gofynnir i chi sicrhau bod cerrig milltir clir wedi eu hadnabod sydd yn dangos rhaglen ac amserlen gweithredu'r prosiect.<br>Fe fydd y manylion y byddwch yn nodi yma yn cael eu hystyried fel rhan o broses asesu eich cais. |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

| | | |
|---|---|---|
| 25. | Trosolwg o'ch prosiect (hyd at 500 gair) | Dylech roi trosolwg o beth fydd eich prosiect gan hefyd gyfeirio at weithgareddau, prif nodau ac amcanion eich prosiect.<br>Eglurwch sut fydd eich prosiect yn gynaliadwy ar ddiwedd cyfnod y grant neu sut fydd yn arwain at ddatblygiad hir dymor. |
| 26. | Pam bod angen y prosiect yn eich ardal? (hyd at 250 gair) | Dylech gyfeirio at unrhyw waith ymgynghori a rhoi tystiolaeth o angen y prosiect yn lleol yma |
| | | |
| 27. | Pwy fydd yn elwa o'r prosiect? (hyd at 150 gair) | Yma dylech nodi pwy tu allan i'ch sefydliad fydd yn elwa o'r prosiect. |

**CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL**

| | | |
|---|---|---|
| 28. | Rydw i / rydym ni yn cadarnhau y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r grant yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a byddaf yn gweithio tuag at achrediad Cyflog Byw | Os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi bod unrhyw gyflogau grant sy'n cael ei ddefnyddio i dalu cyflogau yn talu'r cyflog byw. Yn ogystal bydd angen nodi erbyn pryd y byddwch yn gweithio i gwblhau achrediad cyflog byw |

**CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU LLEOL**

| | | |
|---|---|---|
| 29.a | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Gwynedd 2023-28. | Dylech nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Gwynedd 2023-28. |
| 29.b | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu prosiect Ardal Ni 2035. | Dylech nodi yma sut bydd defnydd y grant yn plethu gyda prif faterion lleol sydd wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni 2035. |
| 29.c | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Celfyddydau Gwynedd. | **Dim ond os yn berthnasol** i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Cynllun Celfyddydau Gwyned |
| 29.ch | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Digwyddiadau Gwynedd | **Dim ond os yn berthnasol** i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Canllawiau Digwyddiadau Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 29.d | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru | **Dim ond os yn berthnasol** i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. |
| 29.dd | Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Dim ond os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. |

**YR IAITH GYMRAEG**

| | | |
|---|---|---|
| 30. | A oes gan eich sefydliad Bolisi neu Ddatganiad Iaith Gymraeg | Os nad oes, amlinellwch sut y byddwch yn defnyddio'r grant i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd? Gall hyn gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn |
| | | wyneb neu dros y ffôn, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan. |

**SERO NET**

| | | |
|---|---|---|
| 31. | Sut mae'r cynnig yn cefnogi polisïau neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru? (150 gair | Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer |

**CYDRADDOLDEB**

| | | |
|---|---|---|
| 32. | Disgrifiwch sut ydych chi wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich cynnig, y grwpiau perthnasol a effeithir yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig, ac unrhyw fesurau yr ydych yn eu cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn. (150 gair) | Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer |

**PROFIAD A CHAPASITI'R YMGEISYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 33. | Pa brofiad sydd gan eich sefydliad o gyflwyno'r math, maint ar raddfa hon o weithgarwch prosiect (hyd at 200 gair) | Dylid cyfeirio yma at enghreifftiau o brosiectau tebyg neu debyg eu maint y mae eich sefydliad wedi eu cyflawni yn y gorffennol |

**ARIANNOL**

| | | |
|---|---|---|
| 34. | Cyfanswm cost y prosiect | Dylid nodi yma union gost y prosiect yn ei gyfanrwydd |
| 35. | Cyfanswm y grant drwy'r gronfa yma gwneir cais amdano | Dylid nodi yma fain o arian drwy'r gronfa yma yr ydych yn ceisio amdano |
| 36. | Ffynhonnell a Swm yr arian cyfatebol | Os ydych wedi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect, nodwch yma gyfanswm yr arian cyfatebol sydd wedi ei sicrhau ac o ble mae'r arian wedi ei sicrhau |
| 37. | Os ydych yn gofyn am 100% o gost eich prosiect nodwch eich rhesymeg dros hynny | Wrth ateb y cwestiwn yma dylech gyfeirio at werth am arian eich cynllun a pham nad ydy'n bosib i chi gyfrannu at y gost. |

| | | |
|---|---|---|
| 38 | Sut ydych wedi caffael eich prosiect | Dylid nodi yma sut ydych wedi mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect ac esbonio pam eich bod yn bwriadu defnyddio un cwmni dros y llall, gan ddangos y gwerth am arian. Yn ychwanegol i'r canllawiau rydym hefyd wedi darparu manylion ac ymarfer da mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect, ac rydym yn awgrymu eich yn eu darllen yn ofalus. Noder bydd angen i chi anfon pob dyfynbris yr ydych wedi ei dderbyn ar gyfer y prosiect gyda'r ffurflen gais |

CRONFA CEFNOGI DIWYLLIANT, DIGWYDDIADAU, BYW'N IACH AC ACTIF UKSPF

# CANLLAWIAU CEISIADAU BYW'N IACH AC ACTIF

## (ROWND 2)

| **PROFFIL GWARIANT Y PROSIECT 2023-24**<br>**PROJECT EXPENDITURE PROFILE 2023-24** | | **Nodwch enw'r cyd arianwyr isod Please note match funders below** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r eitem a'r gost *Item and cost* | | **Y Gronfa hon This Fund** | ……………………… ……………………… | ………………. ……………….. | ………………. ……………….. | ………………. ……………….. | **Cyfanswm** ***Total*** |
| **1.** | **£** | | | | | | |
| **2.** | **£** | | | | | | |
| **3.** | **£** | | | | | | |
| **4.** | **£** | | | | | | |
| **5.** | **£** | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | £ | | | | | | |
| Cyfanswm<br>*Total* | £ | | | | | | |

CRONFA CEFNOGI DIWYLLIANT, DIGWYDDIADAU, BYW'N IACH AC ACTIF UKSPF

# CANLLAWIAU CEISIADAU BYW'N IACH AC ACTIF

## (ROWND 2)

| PROFFIL GWARIANT Y PROSIECT 2024 (Hyd at Rhagfyr)<br>PROJECT EXPENDITURE PROFILE 2024 (Up to December) | | Nodwch enw'r cyd arianwyr isod Please note match funders below | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r eitem a'r gost *Item and cost* | | Y Gronfa hon<br>This Fund | ……………………..<br>…………………….. | ……………….<br>……………….. | ……………….<br>……………….. | ……………….<br>……………….. | Cyfanswm<br>*Total* |
| 1. | £ | | | | | | |
| 2. | £ | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | **£** | | | | | | |
| **4.** | **£** | | | | | | |
| **5.** | **£** | | | | | | |
| **6.** | **£** | | | | | | |
| Cyfanswm<br>***Total*** | **£** | | | | | | |

# CANLLAWIAU CEISIADAU BYW'N IACH AC ACTIF

## (ROWND 2)

**RHEOLI CYMORTHDALIADAU**

Mae'n ofynnol ar ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn llawn gyda rheoliadau cymorthdaliadau y DU.

| | | |
|---|---|---|
| 39. | A oes unrhyw agwedd o'r prosiect yn gweithgaredd masnachol | Nodwch os yw'r gweithgaredd a fydd yn cael ei cynnwys ariannu drwy'r gronfa yma yn weithgaredd masnachol |
| 40. | Os ydyw, eglurwch yn gryno beth yw'r weithgaredd masnachol | Os nodwch Ydi i gwestiwn 40 esboniwch beth yn union yw'r weithgaredd masnachol (200 gair) |

Canllaw: CRONFA BYW’N IACH - SPF

**RHESTR GWYRO**

**BETH SYDD ANGEN EI GYFLWYNO GYDA’R CAIS?**

Rhaid i bob ymgeisydd dychwelyd yr eitemau canlynol;

- Ffurflen Gais
- Copi o Gyfansoddiad y Sefydliad wedi ei arwyddo a’i ddyddio
- Tystiolaeth o amcan brisiau / dyfynbrisiau ar gyfer costau’r cynllun
- Copïau o ddatganiad banc mwyaf diweddar y grŵp(ar gyfer pob cyfrif)
- Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun (tystiolaeth o arian cyfatebol y cynllun)
- Cynllun Busnes neu wybodaeth addas arall sy’n dangos bod y cynllun yn hyfyw
- Cynllun Rheoli digwyddiad (Os yn berthnasol)
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb
- O leiaf 3 llythyr cefnogaeth gan rhai fydd yn elwa o’r brosiect, ac unrhyw dystiolaeth arall all gefnogi eich cais e.e. arolwg, barn trigolion trwy cyfryngau cymdeithasol ayb.
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio, neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes rhaid cael caniatâd cynllunio os yn berthnasol)

- Tystiolaeth Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu (os yn berthnasol)